ADRODDIAD I:	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
DYDDIAD:	13 Rhagfyr 2021
SWYDDOG ARWEINIOL A'I SEFYDLIAD:	Iwan Davies, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SWYDDOG CYSWLLT A SEFYDLIAD:	Fran Lewis, CBS Conwy
PWNC:	Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i Gyflwyno Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yn hyn

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Rhoi trosolwg i aelodau o'r ymateb gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i argymhelliad adolygiad Senedd Cymru mewn i Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru eu casgliadau yn dilyn ymchwiliad i rwystrau gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y gellir ei weithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.

2.2 Casglwyd tystiolaeth gan amrywiaeth o bobl a sefydliadau gwahanol ar draws y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, gan ganolbwyntio ar y chwe phrif thema:

i. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y Ddeddf
ii. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i weithredu'r Ddeddf, a pha mor effeithiol mae'r adnoddau hynny wedi cael eu defnyddio
iii. Y gefnogaeth a roddwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
iv. Rôl arweiniol Llywodraeth Cymru
v. Rhwystrau posibl eraill (e.e. Brexit, Covid-19, ac ati)
vi. Sut i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol

2.3 Mae Atodiad A yn amlinellu argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac ymatebion gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. ARGYMHELLION/ DEWISIADAU

3.1 Nodi'r ymatebion a gafwyd i'r argymhellion a'r goblygiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.